

Y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

HSS(2)-03-07 (p.6)

Dyddiad y cyfarfod: Dydd Mercher 7 Chwefror 2007

Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 3, Senedd, Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Teitl: Adroddiad y Pwyllgor ar y Mesur Iechyd Meddwl

Diben

Gwahoddir y Pwyllgor i roi sylwadau ar yr adroddiad drafft lle y bu'n ystyried y Mesur Iechyd Meddwl ar 25 Ionawr, sydd wedi'i amg?

Yn amodol ar sylwadau'r Aelodau, caiff yr adroddiad ei gyfieithu a'i gyflwyno. Fel y cytunwyd yn y cyfarfod, bydd y Cadeirydd yn anfon cop? o'r adroddiad at y Gweinidog, Ysgrifennydd Gwladol Cymru a Gweinidog yr Adran Iechyd. Os yw'r Aelodau'n dymuno, gellir hefyd anfon cop? at Gadeirydd y Pwyllgor Materion Cymreig ac Aelodau Seneddol etholaethau Cymru.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Adroddiad y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Y Mesur Iechyd Meddwl

Y Cefndir

1. Anfonwyd Y Mesur Iechyd Meddwl, a grybwyllwyd yn araith y Frenhines i'r Senedd yr hydref diwethaf, i'r Pwyllgor graffu arno gan gyfarfod llawn Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar 28 Tachwedd 2006.
2. Cyhoeddwyd y Mesur gan Lywodraeth y DU, wrth ymgynghori Llywodraeth Cynulliad Cymru, ar 16 Tachwedd 2006. Dyma drydydd cynnig y Llywodraeth i ddiwygio Deddf Iechyd Meddwl 1983, ac mae'n cynnwys hefyd ddiwygiadau i'r Ddeddf Gallu Meddyliol 2005.
3. Ym mis Medi 2002 craffodd y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar y Mesur cyntaf a daeth mwyafrif yr Aelodau i'r casgliad y dylid gwrthod y Mesur am fod cymaint o wrthwynebiad iddo. Roeddent o'r farn y dylid ceisio darpariaethau eraill ar gyfer Cymru, os oedd dymuniad i'r Mesur fynd yn ei flaen yn Lloegr fel y'i drafftwyd, naill ai drwy'r pwerau is-ddeddfwriaeth sydd yn y Mesur, neu drwy Fesur arall i Gymru'n unig.
4. Ym mis Medi 2004 cyhoeddodd Llywodraeth y DU Fesur drafft ar gyfer craffu cyn deddfu. Trafododd y Pwyllgor y Mesur hwn ar 14 Hydref 2004. Canolbwyntiodd ar weld i ba raddau yr oedd

y drafft newydd yn ateb y pryderon a fynegwyd ynghylch Mesur 2002. Mae copi o adroddiad y Pwyllgor ar gael yn <http://www.wales.gov.uk/keypubassemhealsocsvs/content/reports-e.htm>

Y Mesur Cyfredol

5. Yn dilyn cyhoeddi'r Mesur ymgynghorodd y Pwyllgor ?146;r cyrff hynny oedd wedi rhoi tystiolaeth ar y Mesur drafft yn 2004(Atodiad 1). Cafwyd ymateb oddi wrth y canlynol:

- 1 Hafal
- 2 Ymddiriedolaeth Zito
- 3 Y Sefydliad Iechyd Meddwl
- 4 Mind Cymru
- 5 Cydffederasiwn y GIG
- 6 Y Coleg Nyrsio Brenhinol
- 7 Cynghorau Iechyd Cymunedol
- 8 Coleg Brenhinol y Seiciatryddion
- 9 Gweithredu dros Iechyd Meddwl, Gorllewin Cymru
- 10 Mind Cwm Rhymni
11. Cymdeithas y Cyfreithwyr (Cymru)

6. Ystyriodd y Pwyllgor yr ymatebion yn ei gyfarfod ar 25 Ionawr 2007, pan wrandawodd hefyd ar gyflwyniadau llafar gan Gymdeithas y Cyfreithwyr (Cymru) a Hafal. Bydd yr atebion ysgrifenedig ar gael ym mhapur y Pwyllgor HSS(2)-02-07(p4a) at <http://www.cymru.gov.uk/cms/2/HealthAndSocialServicesCommittee>. Mae trawsgrifiad o'r cyfarfod hefyd ar gael ar y wefan.

Y Cyflwyniadau

7. Cyfeiriodd y cyflwyniadau llafar ac ysgrifenedig at amryw o bryderon.

8. Dangosodd Hafal, wrth ddechrau'u cyflwyniad llafar, fod y fframwaith gwasanaeth cenedlaethol ar gyfer iechyd meddwl yng Nghymru yn darparu gwasanaethau sy'n wahanol i rai Lloegr. Mae'r Mesur yn canolbwyntio ar ddiogelwch y cyhoedd a gorfodi a byddai hyn yn tansilio ethos yr NSF.

Diffinio anhwylder meddwl

9. Bydd un diffiniad o anhwylder meddwl. Mae'r Mesur yn gadael y cwestiwn a ellid edrych ar anhwylderau hoffter rhywiol neu ymddygiad cymdeithasol fel unig sail anhwylder meddwl a gorfodaeth yn sgil hynny o dan Ddeddf 1983, i'w benderfynu gan yr arbenigwyr proffesiynol.

10. Mae'r rhai sy'n ymateb yn galw am adfer eithrio. Er enghraifft, mae Conffederasiwn y GIG yn cefnogi'r gwelliant i gymal 3 sydd yn dweud yn benodol na ddylai'r diffiniad ehangach o anhwylder meddwl fod yn gymwys yn unig ar sail camddefnyddio sylweddau, ymddygiad rhywiol, troseddu neu fod yn debygol o droseddu yn erbyn y gyfraith neu yn groes i'r drefn, neu gredoau diwylliannol, crefyddol neu wleidyddol. Mae Coleg Brenhinol y Seiciatryddion hefyd yn cefnogi adfer yr eithriadau.

11. Nid yw Cymdeithas y Cyfreithwyr yn erbyn cael un diffiniad eang o anhwylder meddwl mewn egwyddor ond dylid cynnwys eithriadau ac amodau tynnach ar gyfer gorfodi – megis meini prawf i ddangos nam ar y gallu i benderfynu a phrawf o fudd therapiwtig.

Egwyddorion sy'n ganllaw

12. Mynegodd llawer o'r ymatebion ysgrifenedig bryderon am nad oedd cyfres o egwyddorion, yn cynnwys peidio ?wahaniaethu, i'w cynnwys yn amlwg yn y Mesur. Roedd Coleg Brenhinol y seiciatryddion yn teimlo hefyd na ddylid gadael egwyddorion i'w diogelu gan y Cod Ymarfer. Dywedodd Cymdeithas y Cyfreithwyr y dylai fod, ar ddechrau'r Mesur, gyfres o egwyddorion statudol i fod yn ganllaw i'r ymarferwyr wrth iddynt ddefnyddio'u pwerau a chyflawni'u dyletswyddau ac i roi hyder i'r rhai sy'n defnyddio'r gwasanaeth.

Y Prawf Triniaeth Briodol

13. Mae Cymdeithas y Cyfreithwyr yn credu nad oes digon o sicrwydd cyfreithiol yn y diffiniad hwn a'i fod yn rhy niwlog i fod yn sail i ddefnyddio pwerau gorfodi. Mae'n rhaid i'r Mesur (yn unol ? hyfraith achosion hawliau dynol) ddiffinio triniaeth briodol yn glir i olygu'r driniaeth sydd orau er lles y claf ac sydd hefyd yn anghenraid meddygol. Dylid diwygio'r Ddeddf Iechyd Meddwl i goleddu'r egwyddor y dylid trin y rhai sydd ag afiechyd meddwl ar yr un sail ?146;r rhai sydd ag afiechyd corfforol, cyn belled ag y bo hynny'n bosibl. Dylid parchu ymreolaeth y claf oni bai fod diffyg mawr yng ngallu'r claf i wneud penderfyniadau ynglyn ?hriniaeth feddygol.

14. Mae Hafal yn cymeradwyo'r ddarpariaeth yn Neddf Iechyd Meddwl(Gofal a Thriniaeth) (Yr Alban) 2003, ar gyfer yr hawl i gael asesiad. Dylai hyn gynnwys yr hawl i dderbyn triniaeth sydd nid yn unig yn "briodol", ond triniaeth y mae'r Mesur yn gofyn yn ddiamwys am iddi fod yn therapiwtig ac yn glinigol gywir. Mae Cymdeithas y Cyfreithwyr yn mynnu hefyd y dylai'r Mesur roi i gleifion a gofawyr yr hawl i geisio a derbyn asesiad llawn o'u holl anghenion iechyd a gofal cymdeithasol cyn cyrraedd pwynt argyfwng.

Triniaeth yn y Gymuned dan Oruchwyliaeth

15. Un o'r prif bryderon am y Mesur yw'r cynnig ynghylch triniaeth yn y gymuned dan oruchwyliaeth. Er enghraifft, mae Mind Cymru'n credu bod perygl y bydd triniaeth yn y gymuned dan oruchwyliaeth yn cael ei gorddefnyddio, yn niweidio cysylltiadau therapiwtig, yn dibynnu'n ormodol ar driniaethau sy'n defnyddio cyffuriau ac yn golygu bod rheoli sgil-ffeithiau'n anodd.

16. Mae Cymdeithas y Cyfreithwyr o'r farn y dylid, o gyflwyno pwerau yn y gymuned o gwbl, sicrhau'u bod ar gyfer grwp a ddiffinnir yn fanwl a bod mesurau diogelu cryfach ar gael hefyd. Mae'n credu y ceid ateb gwell i broblem y 'cylch diddiwedd' drwy wella ansawdd ac argaeledd gwasanaethau cymorth ac ?fal a'r bont rhwng triniaeth aciwt a gofal sy'n parhau.

17 Dadleuai Hafal fod y gorchmynion triniaeth a gynigir yn benagored ac yn rhoi gormod o bwerau i'r Swyddfa Gartref i gadw pobl dan orchymyn. Mae'r gorchmynion yn debygol o gynyddu gorfodaeth yn hytrach na'i lleihau. Byddai gwrthod ufuddhau'n rhoi pwysau ar y nifer o wl?a geir i gleifion mewnol, a bydd hynny yn ei dro'n effeithio'n wael ar y bobl hynny sydd yn chwilio am driniaeth o'u gwirfodd yn gynnar yn eu salwch. Bydd cynyddu lefel y goruchwyllo'n niweidio'r berthynas sydd rhwng y claf a'r ymarferwr ac yn peryglu'r cynnydd a wnaed drwy'r Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol a'r Strategaeth Iechyd Meddwl Oedolion.

Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl

18. Mae Cymdeithas y Cyfreithwyr yn croesawu'r cynigion fydd yn caniat?i'r Llywodraeth leihau'r oedi sy'n digwydd cyn i gleifion sydd heb fanteisio ar eu hawl i apelio i'r tribiwnlys gael eu cyfeirio fel rhan o'r drefn. Mae'r Gymdeithas yn tynnu sylw at yr angen am ddigon o adnoddau ar gyfer y ddarpariaeth hon.

19. Mae ymgyrchwyr yng Nghymru ac yn Lloegr wedi bod yn galw ers tro am hawl i gael eiriolaeth annibynnol, ond nid yw'r Mesur Iechyd Meddwl yn cynnwys hawl o'r fath. Mae Cymdeithas y Cyfreithwyr yn cynnig y dylai fod yr hawl hon gan unrhyw un a gedwir yn anwirfoddol dan y Mesur, o'r adeg y'u cedwir yn gaeth.

Y Perthynas Agosaf

20. Dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983, mae gan y Perthynas Agosaf bwerau helaeth wrth benderfynu gweithredu gorfodaeth a phrin yw'r rheolaeth sydd gan y cleifion dros bwy a w?y gyfraith fel eu Perthynas Agosaf. Mae'r Mesur yn ateb hyn drwy gynnig i gleifion yr hawl i ddisodli'u Perthynas Agosaf, ond ceir pryder y gallai'r broses fod yn un hir a llawn straen.

21. Dangosodd Cymdeithas y Cyfreithwyr fod gan y 'perthynas agosaf' bwerau pwysig wrth benderfynu a yw claf yn cael ei gadw neu'i ollwng. Mae'r Mesur yn gwella ychydig ar y system o nodi'r 'perthnasau agosaf' a'u disodli os bydd angen. Mae'n credu, fodd bynnag, y dylai'r claf ei hun gael enwebu'r person sydd yn gallu gofalu orau am ei fuddiannau, fel ag sydd yn digwydd yn yr Alban. Mae Mind yn cytuno y dylai claf gael enwebu'i gynrychiolydd ei hun.

Pobl Broffesiynol Gymeradwy ym Maes Iechyd Meddwl

22. Mae pryder y bydd cael Pobl Broffesiynol Gymeradwy ym Maes Iechyd Meddwl yn lle Gweithwyr Cymdeithasol Cymeradwy yn effeithio'n wael ar brofiad y cleifion. Yn aml iawn, y Gweithwyr Cymdeithasol Cymeradwy yw'r unig bobl broffesiynol anghlinigol sydd ynghlwm wrth wneud penderfyniadau ac fe'u gwelir fel rhai sydd yn rhoi'r farn annibynnol.

23. Mae Mind yn pryderu am lefelau'r hyfforddiant a'r profiad fydd yn ofynnol i weithredu fel pobl Broffesiynol Iechyd Meddwl ac mae'n gofyn am sicrwydd y byddant yn gydradd, o leiaf, ?146;r cymwysterau y gofynnir amdanynt mewn Gweithwyr Cymdeithasol Cymeradwy. Dywed y Coleg Nyrso Brenhinol fod gwir angen ystyried faint o nyrsys iechyd meddwl y bydd angen eu hyfforddi i gynnal y ddeddfwriaeth.

Bwlch Bournemouth

24. Tra bod Cymdeithas y Cyfreithwyr yn croesawu'r ffaith fod y Llywodraeth o'r diwedd wedi ceisio cynnig atebion i ddatrys Bwlch Bournemouth, ni fydd y cynigion presennol yn gallu diogelu'n ddigonol hawliau'r unigolion hynny y mae angen o bosibl wahardd iddynt eu rhyddid er eu lles eu hunain, a hwythau'n cyd-fynd ?146;u triniaeth. Dylai'r mesurau diogelwch fod yn debycach o lawer at y rhai yn Neddf Iechyd Meddwl 1983. Heb fesurau o'r fath, byddai'r ddeddfwriaeth yn amlwg yn agored i gyhuddiadau o wahaniaethu yn erbyn y garfan hon o bobl.

25. Mae Ymddiriedolaeth Zito yn cefnogi cynigion y Llywodraeth ac yn ystyried eu bod yn cydbwysu hawliau'r cleifion ?iogelwch y cyhoedd. Dywedodd fod yr egwyddorion a goleddir yn y Mesur yn anelu at gadw pobl allan o ysbytai gyhyd ag y bo hynny'n bosibl, ond yn cynnwys pwerau a mesurau i drin problemau cyn iddynt droi'n argyfwng.

Pwerau i Gynulliad Cenedlaethol Cymru

26. Pan ollyngodd Llywodraeth y DU y Mesur Iechyd Meddwl drafft yn 2004, dywedodd Dr Brian Gibbons, Gweinidog y Cynulliad Cenedlaethol dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol y byddai'n edrych i mewn i'r posibilrwydd o ddefnyddio pwerau fframwaith yn y Mesur a gynigir gan y Llywodraeth i ddiwygio Deddf Iechyd Meddwl 1983. Hysbysodd y Pwyllgor ei fod wedi penderfynu nad oedd pwerau fframwaith yn briodol am y rhesymau canlynol:

- mae Deddf 1983 yn gosod allan brosesau ar gyfer gorfodi sydd yn gyffredin i bobl yn Lloegr ac yng Nghymru
- mae'n rhaid i'r diffiniadau o 'anhwylder meddwl' fod yr un fath yn Lloegr ac yng Nghymru i osgoi dryswch trawsffiniol;
- bydd cod ymarfer ar gyfer Cymru'n rhoi canllawiau helaeth ar driniaeth yn y gymuned dan oruchwyliaeth a bydd yn gyson ?146;r NSF;
- mae'r cynigion ar gyfer diwygio'r darpariaethau ynghylch y perthynas agosaf i gydymffurfio ? 146;r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol, a bydd yn rhaid eu gwneud mewn deddfwriaeth sylfaenol;
- yn yr un modd, bydd y cynigion ar fesurau diogelu Bournemouth yn diwygio deddfwriaeth sylfaenol; a
- bydd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru bwerau rheoleiddio o ran penderfynu pwy gaiff

weithredu fel ymarferwr iechyd meddwl cymeradwy, clinigwr cyfrifol a chlinigwr cymeradwy, a hefyd wrth bennu'r cyfnodau cyfeirio mewn perthynas ?146;r Tribiwnlys Iechyd Meddwl.

Tafoli

27. Ystyriodd y Pwyllgor yr hyn a gyflwynwyd iddynt. Wrth ateb cwestiwn, dywedodd cynrychiolydd Hafal mai gwell fyddai parhau Deddf 1983 fel y'i drafftiwyd yn hytrach na'i bod yn cael ei diwygio drwy'r Mesur. Roedd Cymdeithas y Cyfieithwyr o'r farn bod diffygion mawr yn y Mesur. Mae'n barnu y dylid diwygio Deddf Iechyd Meddwl 1983 yn drylwyr.

28. Nododd y Pwyllgor fod y Llywodraeth wedi cytuno bellach i ystyried rhoi egwyddorion cyffredinol sy'n cryfhau hawliau'r cleifion yn amlwg yn y Mesur, ar ?'r syniad dderbyn cefnogaeth gref gan Dy'r Arglwyddi.

29. Hefyd, nododd y Pwyllgor rai o ddarpariaethau Deddf Iechyd Meddwl (Gofal a Thriniaeth) (Yr Alban) 2003:

- mae'n cynnwys datganiad yn sefydlu deg o egwyddorion canllaw y dylid eu hystyried ym mhob penderfyniad sy'n ymwneud ?efnyddio pwerau gorfodi dan y Ddeddf.
- Mae Gorchmynion Triniaeth yn y Gymuned yn nodwedd yn neddfwriaeth iechyd meddwl yr Alban. Mae astudiaeth gan Gronfa'r Brenin yn ddiweddar wedi canfod bod triniaeth orfodol yn y gymuned wedi cael ei 'derbyn yn gyffredinol' yn yr Alban. Mae hyn am ei bod yn decach i'r claf ac ond yn cael ei gweithredu yn achos y cleifion hynny sydd ar felin-droi i mewn ac allan o ysbytai. Fe'i defnyddir dan reolau caeth. Ychwanegodd yr adroddiad fod gorchmynion yr Alban yn gorfod cael eu hawdurdodi gan dribiwnlys annibynnol, yn wahanol i'r driniaeth yn y gymuned dan oruchwyliaeth a gynigir ar gyfer Lloegr a Chymru yn y Mesur Iechyd Meddwl newydd, triniaeth fyddai dan reolaeth clinigwyr.
- Mae'r Ddeddf yn darparu ar gyfer eiriolaeth annibynnol, rhad ac am ddim i bob un sy'n defnyddio'r gwasanaeth. Mae hi'n cynnwys darpariaeth ar gyfer dau fath o eiriolaeth sef eiriolaeth unigol (lle mae defnyddiwr y gwasanaeth yn cael 'partner' sydd yn berson proffesiynol neu'n wirfoddolwr a hynny mewn sefyllfa un ac un) ac eiriolaeth grwp (lle mae defnyddwyr y gwasanaeth yn ymuno ?rwpiau eiriol annibynnol gyda phobl mewn sefyllfaoedd tebyg iddynt hwy'u hunain. Gelwir hyn yn eiriolaeth ar y cyd ac yn hunan eiriolaeth).
- Mae eiriolaeth ar gael i bawb sydd ?alwch meddwl, dementia, anabledd dysgu neu anhwylder personoliaeth, boed y claf ar y pryd mewn ysbyty neu beidio, neu'n ddarostyngedig i orchymyn gorfodi.
- Caiff defnyddwyr y gwasanaeth enwebu person neilltuol fydd yn gweithredu fel eu perthynas agosaf wrth drafod pob dim sydd yn gysylltiedig ?146;u hiechyd meddwl. Os bydd y claf yn derbyn triniaeth dan y Ddeddf bydd rhaid hysbysu'r person a enwir ac ymgynghori ag ef/hi ynghylch agweddau ar ofal y claf. Efallai y bydd y person a enwir yn ffrind, yn ofalwr, yn aelod o'r teulu neu'n berson arall sydd hefyd yn defnyddio'r gwasanaeth. Mae'r pwyslais ar y ffaith fod y defnyddiwr yn dewis rhywun y gall ymddiried ynddo/ynddi.

Casgliadau

30. Mae mwyafrif y Pwyllgor yn derbyn bod y Mesur Iechyd Meddwl yn ddiffygiol am y rhesymau a roddwyd yn y dystiolaeth. Pleidleisiodd y Pwyllgor dros dderbyn y penderfyniad a ganlyn:

31. Mae'r dystiolaeth a roddwyd i'r Pwyllgor wedi dangos barn gyson bod y ddeddfwriaeth iechyd meddwl a gynigir yn ddiffygiol iawn. Yng ngoleuni'r dystiolaeth hon, barn y Pwyllgor yw y dylai'r Gweinidog geisio pwerau fframwaith yn y Mesur Iechyd Meddwl.

Rhodri Glyn Thomas AC
Cadeirydd
Chwefror 2007

Atodiad 1

		<p>Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol</p> <p>Health and Social Services Committee</p>
<p>To the Chair, Director or Chief Executive of the Organisations on the attached list</p>		<p>Bae Caerdydd / Cardiff Bay</p> <p>Caerdydd / Cardiff CF99 1NA</p> <p>Eich cyf / Your Ref</p> <p>Ein cyf / Our Ref HSS(2)-13-06</p> <p>29 November 2006</p>

Dear Colleague,

Mental Health Bill

As you know, the United Kingdom Government introduced the Mental Health Bill to the House of Lords on 16 November.

The Health and Social Services Committee scrutinised the two previous proposed by the Government in 2002 and 2004. It will be looking at the latest Bill in its meeting on 25 January 2007.

The Committee would welcome your organisation's views on the Bill to help inform its consideration and scrutiny. If you wish to comment, would you please send your response, preferably by e-mail in a Word document to the Committee Clerk, Jane Westlake. Jane's e-mail address is jane.westlake@wales.gsi.gov.uk . If you have any queries her telephone number is 029 2089 8149.

I hope that you will be able to respond.

Yours sincerely

Rhodri Glyn Thomas AM
Chair

- Association of Directors of Social service
- Hafal
- Mind Cymru
- RCN Wales
- The Royal College of Psychiatrists
- The Zito Trust
- All Wales User and Survivor Network
- The Welsh NHS Confederation
- Depression Alliance Cymru
- West Wales Action for Mental Health
- Gofal Cymru
- Children in Wales
- WCVA
- Board of Community Health Councils in Wales
- The Wales Network of Counselling Psychology
- ForUS
- South Wales Mental Health Advocacy
- The Mental Health Foundation
- Law Society in Wales

Gwasanaethau'r Pwyllgorau ac Ymchwil yr Aelodau
Chwefror 2007